



papur



priordy



PARA I NOFIO

Dyfyniad o'r ffilm *Finding Nemo*

Dewiswyd gan Llinos Jones

Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn

Rhifyn 348
PAPUR HYDREF 2021

Gair gan ein Gweinidog

Geiriau

GEIRIADUR. Tybed faint o bobl sy'n ei ddefnyddio heddi? Haws o lawer yw troi at Google yn ôl rhai!

Eleni, mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn dathlu ei ganmlwyddiant

Yn y gyfres o gyfrolau sy'n rhan o'r geiriadur fe gawn ddarlun gwych o sut mae'r iaith Gymraeg wedi datblygu ar hyd y canrifoedd, o'i dechreuad yn y bumed a'r chweched ganrif pan esblygodd o'r iaith Frythoneg.


Erbyn heddiw mae ein hiaith wedi datblygu i fod yn un gadarn a chyhyrog, ac yn fwy nag abl i drin yn hyderus iawn ystod eang o bynciau a chysiau mewn meysydd amrywiol.

Mae BBC Cymru Fyw'n ein hatgoffa y ceir yn ein hiaith, fel yn achos pob iaith lwyddiannus, hanes hir o fenthg, o wrthod, o roi o'r neilltu, ac o ddyfeisio a bathu wrth iddi addasu i heriau'r dydd ar hyd y canrifoedd. Gallwn fod yn hyderus nad unrhyw wendid yn ei geirfa sy'n bygwth dyfodol yr iaith Gymraeg!



Er bod cyfrolau'r Geiriadur yn eistedd yn nobl ar silff lyfrau nifer fawr ohonom ni'r Cymry, trown at ein cyfrifiaduron a dysgu bod y geiriadur yn parhau i gynnwys geiriau newydd a fathwyd gan yr oes fodern hon.

Ac er 2014 mae ystod o eiriau newydd o *esblygiad* i



osteopatheg, cwaraîn i cwscws ac o wafflo i hwylfyrddio wedi eu hychwanegu!

Geiriau cymharol newydd i'r geiriadur hefyd yw *gliniadur, hunlun a digidol*. Tybed a welwn y gair *sŵm* (zoom) yn ymddangos ynddo rywbryd? Wn i ddim amdanoch chi, ond dyma air sydd wedi bod yn rhan o'm geirfa i dipyn dros y 18 mis diwethaf!

Onnd wrth groesawu geiriau newydd, tybed a yw hi'n deg nodi ein bod hefyd yn colli'r defnydd o ambell hen air?

Onnd mae rhai geiriau yn oesol. Eu hystyr yr un fath a'r defnydd ohonynt yn mynegi'r un neges.

Cariad. Cymwynasgarwch. Parch. Maddeuant.
Prin y gall yr un eirfa newydd gymryd lle'r rhain, na'r ymdrech i'w hailddiffinio dynnu'r gwir ystyr oddi arnynt.



YR UNIG beth fyddwn i'n ei ddymuno fyddai cael eu clywed yn amlach yn ein byd heddiw.



DARLLENIADAU



Mis Hydref	Darlleniad
Wythnos 1	Marc 10: 2-16
Wythnos 2	Marc 10: 17-31
Wythnos 3	Marc 10: 35-45
Wythnos 4	Marc 10: 46-52
Wythnos 5	Marc 12:28-34

DIOLCHGARWCH YR OFALAETH - 2021

Y PRIORDY	
Bore Sul, 3 Hydref am 10	Oedfa Blant a Phobl Ifanc am 10 gyda Beti-Wyn
Nos Sul 3 Hydref am 5	Cwrdd Diolchgarwch a Chymun gyda'r Parchedig Ddr Adrian Morgan Gorseinon a'n Gweinidog Paned i ddilyn <i>Rhoddion y Plant at Fanc Bwyd Caerfyrddin</i>
CANA	
Dydd Sul, 10 Hydref am 3	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a Chymun gyda'r Gweinidog
Nos Fercher 17 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Catrin Ann Paned i ddilyn
BANCYFELIN	
Dydd Sul, 10 Hydref am 1.30	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a Chymun gyda'r Gweinidog
Nos Iau, 21 Hydref am 7	Oedfa Bregethu Y Parchedig Emyr Williams Paned i ddilyn
CARTREF PLAS-Y-DDERWEN	
	P'nawn Gwener, 22 Hydref 2021 am 2 Gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni'n Gweinidog

Mae croseo i bawb ym mhob un o'r gwasanaethau hyn

GWEDDI



Gweddïwn

Diolch i Ti Arglwydd:

- am y dorth nad oes rhaid ei thylino,
 - yr un nad oes rhaid ei phobi,
 - y dorth nas gwelir mohoni ar silff y siop
- na chwaith ar fwrdd y gegin i'n digoni dros dro.

Diolch i Ti:

- am y bara na ellir ei brynu.
- Nid 'ein bara beunyddiol'
ond y bara sy'n para byth.
- Y bwyd bywiol sy'n Fara'r Bywyd.
 - Bara cofio bwrdd y cymun
- a dorrir trosom a ninnau'n annheilwng o'r briwsion sy'n
syrthio oddi ar y bwrdd.

**Diolch am eiriau Iesu,
'Myfi yw Fara'r Bywyd.'**

Amen

Gweddi gan Gareth Maelor



AELOD NEWYDD

Hyfryd derbyn Lowri Davies yn aelod yn y Priordy a chroesawu'r teulu atom, sef Steffan, gŵr Lowri a'r plant Beca a Sianco,

Pob hapusrwydd i chi yn ein mysg.



PREGETHWR Y CWRDD DIOLCHGARWCH

Papur Priordy'n holi

Y Parchedig Ddr

Adrian Morgan



PP: Mae'n siŵr ei bod yn wir dweud fod y pandemig wedi newid pob agwedd ar ein bywyd. Allwch chi esbonio wrthym sut mae wedi effeithio ar eich gweinidogaeth chi?

AM: Yn y lle cyntaf, mae'r pandemig wedi profi bod modd i'r Eglwys newid a hynny'n gyflym pan fo angen. Mae ein gweinidogaeth ni wedi addasu er mwyn ymateb i'r amgylchiadau, gan gynnwys cynnal oedfaon ar lein, cyrddau gweddi, astudiaethau Beiblaidd a hyd yn oed bore coffi ar Zoom! Buom ni hefyd yn cadw mewn cysylltiad â phobl dros y ffôn er mwyn milwrio yn erbyn unigrwydd, ac yn gofalu am bobl fregus drwy gasglu miloedd o bresgripsiynau, a darparu pecynnau bwyd i bobl oedd yn ynysu trwy ein banc bwyd. Yn ogystal â hynny, buom yn paratoi pecynnau ar gyfer plant o deuluoedd incwm isel mewn ysgolion lleol.

PP: Tybed a yw'r profiadau diweddar a gawsom yn dangos fod angen newid natur y weinidogaeth yn ein dyddiau ni wrth i'r argyfwng ysbrydol yng Nghymru ddwysáu a nifer ein gweinidogion a'n hofferiadi leiháu?

AM: Yn aml, mae'r 'eglwys' a 'newid' yn ddau air nad ydynt yn cydfynd â'i gilydd yn hawdd. Ond fe welsom yn y pandemig fod modd i'r Eglwys newid ac addasu'n gyflym pan fo angen er mwyn ymateb i amgylchiadau yn y byd o'n cwmpas. Rwy'n gobeithio na fyddwn yn anghofio hynny wrth inni fynd y tu hwnt i'r argyfwng.

PP: Soniwch ychydig wrthym am eich gwreiddiau a sut y daethoch i godi'r Gymraeg.

AM: Fe'm magwyd ym Mhontarddulais, ar aelwyd di-Gymraeg. Cefais fy ngeni fwy na deufis yn gynnar, ac oherwydd cymhlethdodau yn ystod yr enedigaeth fe gefais i barlys ymennydd (cerebral palsy), sy'n effeithio ochr chwith y corff, a'r goes yn fwyaf arbennig. Bryd hynny, roedd yr Ysgol Gymraeg yn fach, a gan taw deuddeg yn unig fyddai yn

fy nosbarth, penderfynodd mam mai fy anfon i yno fyddai'r dewis gorau oherwydd y byddwn i'n debygol o gael mwy o ofal. Yn yr ysgol, cawsom ein hannog i fwynhau dysgu am ein hiaith, ein hanes a'n diwylliant a dyma a osododd y sylfaen ar gyfer cwrs fy mywyd - y diddordeb yn y 'Pethe' ac ati.

PP: A fu'r awydd ynoch i fod yn offeiriad o ddyddiau cynnar?

AM: Ers dyddiau plentynod, rwy'n cofio synhwyro presenoldeb Duw a meddwl mai offeiriad oeddwn i am fod — er mawr syndod i fy rhieni a oedd yn bell o fod yn selog yn y cwrdd! Ar ôl graddio ac ennill doethuriaeth fe agorodd sawl llwybr posibl. Roedd nifer yn addo llewyrch mawr, ond rwy'n cofio gwybod mai dilyn galwad Duw yn unig fyddai'n tycio.

PP: Tybed pa agweddau ar y weinidogaeth sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?

AM: Mae fy niddordebau academiaidd yn dal i fod yn bwysig i mi, felly rwy'n mwynhau darllen a pharatoi pregethau ac ati, ond yr agwedd sy'n fy moddhau fwyaf yw bod gyda phobl. Rwy wrth fy modd yn gwrandao ar eu hanes, yn deall eu stori, ac mae'n fraint cael cerdded yn eu hymyl yn ystod rhai o gyfnodau mwyaf arwyddocaol eu bywydau.

PP: Fe ddywedwch mewn un man mai Efengyl loan yw'ch hoff lyfr yn y Beibl. Pam hynny?

AM: Mae'r cyfan yn ceisio ein helpu i ddeall pwy yw'r Iesu a beth mae'n ei olygu i'w ddilyn. I mi, dyna yw bod yn Gristion - adnabod Iesu a'i ddilyn, gan adael i'w fywyd a'i esiampl ddylanwadu ar gwrs ein bywyd.

PP: Mae'n debyg mai'r Nadolig yw'ch hoff dymor. Tybed pam?

AM: Fel Eglwyswr, rwy'n credu bod rhywbeth prydferth yn y tymhorau i gyd. O'u cymryd gyda'i gilydd, cawn ddeall rhywbeth o stori iachawdwriaeth yn ei gyflawnder. Ond rwy'n arbennig o hoff o adeg y Nadolig. Mae'n stori galed am ferch ifanc feichiog, ddibriad a'i chymar. Roedd y ddau yn ffoaduriaid. Doedd y stori ddim yn un hawdd, ac eto fe ddaeth Duw i'w chanol. Dyna yw rhyfeddod y Nadolig i mi - y faith bod Duw gyda ni, beth bynnag a ddaw.



P: Yn gweld ar y we ac yn y cylchgrawn a gynhyrchwch, sef Vision, fod Eglwys St Catherine

ymg Ngorseinion yn un sy'n llawn bywyd a chyffro gyda phwyslais ar waith tîm.

AM Ydy. Mae'r Eglwys yn tyfu a'r gynulleifa'n sylweddol. Yr Eglwys yw corff Crist. O fewn y corff mae nifer o aelodau, pob un â'i le. Trwy ras Duw, mae gen i nifer o ddoniau, ond rwy'n methu â rhagori ym mhob peth. Lle bo rhai yn wan, mae eraill yn gryf. Gwaith offeiriad yw adnabod sgiliau a chryfderau'r aelodau ac yna eu hannog a'u rhyddhau i ddefnyddio'u doniau er lles y corff cyfan ac er clod i Dduw. Byddai'n amhosibl cyflawni popeth sy'n rhan o'n cenhadaeth ni fel Eglwys heb weithio fel tîm.



PP: Chi'n briod â Claire ac mae ganddi hithau'i galwedigaeth hefyd, on'd oes?

AM: Oes, nyrs yw hi wrth ei galwedigaeth, er mai darlithydd ym Mhrifysgol Abertawe yw hi erbyn hyn. Bu hi wrthi'n nyrsio eto yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, ond dysgu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr y GIG yw ei gwaith bob dydd. Mae'r ddau ohonom yn disgwyl ein plentyn cyntaf - merch - fydd yn cael ei geni ym mis Ionawr.

PP: Mae'n rhaid bod ychydig o amser gennych bob yn hyn a hyn i hamddena! Beth wnewch chi yn yr oriau hynny, tybed?

AM: Rwy'n hoffi darllen, a thynnu lluniau - mae gen i gamera da ac rwy'n hoffi myfyrto a chymryd amser i edrych yn ofalus am y lluniau gorau wrth fynd am dro. Rwy hefyd yn hoffi cerddoriaeth, a newydd ddechrau gwersi piano! Ond bod gyda theulu, a Clare yn arbennig, sydd bwysicaf i mi.



PP: Ac un cwestiwn arall i gloi, os gwelwch yn dda. Oes gennych chi air o galonddid i ni Gristnogion yng Nghymru yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain?

PP: Mae ein Duw yn llawn cariad a ffyddlondeb, felly go brin bod rhaid i ni boeni am ddyfodol yr Eglwys. Dim ond i ni fod yn barod i weld beth mae'r Arglwydd yn ei wneud, a'n bod ni'n ddigon hyderus i fentro ymuno ag e yn ei waith, fe fyddwn ni'n iawn.

Llawer iawn o ddiolch i chi am ateb y cwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n Cwrdd Diolchgarwch

Dychwelyd i'r Ysgol Sul ar 12 Medi 2021



Ac yn dal ati ar ddiwedd y mis!



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

TEULU PARNELL

Caerfyrddin

JOHN A CARYS GREEN

Caerfyrddin

RHIAN EVANS AC IRIS OWEN

a

DIENW

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn



PANED A SGWRS

**dros
Zoom**



Bore Mercher 13 Hydref 2021 am 11 o'r gloch

***Byddwch yn derbyn y ddolen ar gyfer y cyfarfod
mewn da bryd***

Gwahoddiad gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**UNDOD YN LLE ANNIBENDOID: DR
REES [EBENESER] A SEFYDLU
UNDEB YR ANNIBYNWYRI**

**Darlith Dathlu 150 Undeb yr Anniynwyr
Cymrag yng nghwmni'r Athro Prys
Morgan**



**Nos Fawrth - 12 Hydref 2021 – 7
Ebeneser, Stryd Ebeneser, Abertawe, SA1 5BG**

***Os hoffech fod yn bresennol yn y ddarlith neu ymuno dros
Zoom, cofrestrwch gydag undebannibynwyr.cymru***

Mwynwen Jones....

Oedfa Blant a Phobl Ifanc

Mae gwasanaeth cyntaf mis Medi fel arfer yn llawn bwrlwm ac yn denu plant niferus sy'n falch o ddychwelyd wedi gwyliau'r haf. Yn sicr, felly roedd hi yn yr oedfa a gynhaliwyd ar y 5ed o Fedi.



Roedd pawb mor falch o ymgynnull eto a gyda'r cyfyngiadau wedi llacio fymryn, roedd hi'n hynod braf gweld y gynulleidfa'n agosach at ei gilydd heb yr angen i ddefnyddio'r galeri i sicrhau pellter digonol.

Wedi cydweddio'r weddi agoriadol, croesawyd pawb o'r plant lleiaf i'r Zoomwyr i'r gwasanaeth gan ein gweinidog Beti-Wyn. Nododd ba mor braf oedd cael y band nôl i chwarae eto wedi'r cyfyngiadau a fu. Yn



addas iawn, aeth ymlaen i gyhoeddi'r emyn cyntaf 'Dowch blant bychain'.

Catrin Heledd oedd yn gyfrifol

am y cyhoeddiadau a hynny'n broffesiynol yn ôl ei harfer. Am y tro cyntaf ers y cyfnod clo, roedd yna gasgliad a'r pedair gafodd y cyfrifoldeb oedd Greta Wyn, Greta Gwyn Jones, Nel Jones a Beca Davies - pob un ohonynt yn gwneud eu gwaith yn serchog a diffwdan gan roi gwên ar wynebau'r cyfranwyr. Roedd y cyfraniadau rhydd yn mynd tuag at apêl Cymorth Gristnogol i Haiti yn dilyn daeargryn diweddar.

Cyhoeddwyd yr emyn nesaf gan Beti-Wyn sef 'Ceisiwch yn gyntaf', cyn i'r ddau frawd Ethan ac Iestyn fynd i'r pulpud i gyflwyno'r darlenniad ac roedd graen ar waith y ddau.

Darllenwyd am hanes gwraig a weithiai'n galed iawn




gan lwyddo i gynilo deg darn arian. Cuddiodd hwy a byddai'n cyfri'r darnau o dro i dro ond y tro hwn, dim ond naw darn arian oedd yno. Bu'r gynulleidfa'n eu cyfrif hefyd ac fe gamodd Beti-Wyn ymlaen i helpu i chwilio am y darn coll. Bu tipyn o chwilio drwy'r capel i gyd, chwilio mewn jwg oedd gan un aelod a chwilio o dan glustog aelod arall. Doedd dim sôn am y darn coll yno nac yn y sosban na'r fwcdd oedd gan aelodau eraill. Wrth gwrs, roedd hyn i gyd wedi ei gynllunio'n ofalus gan ein gweinidog.

Wedi methu dod o hyd i'r darn coll yn y capel, parhaodd lestyn gyda'r darlleniad gan nodi i'r wraig chwilio'n ddyfal cyn dod o hyd i'r darn coll a nodi ei llawenydd.

Mac ac Elliw oedd yng ngofal y weddi a bu'r ddau'n diolch am y greadigaeth, am deulu, am synhwyrau, am hapusrwydd ac am Iesu Grist. Anogwyd ni i gofio am y rhai sy'n drist, gan gofio'n arbennig am y rhai yn Afghanistan ac yn Haiti. Gofynnwyd am gymorth Duw i'n helpu i ddod â chysur i fywydau pawb o'n hamgylch. Cyhoeddodd Beti-Wyn yr emyn nesaf '*Duw a wnaeth y byd*'

Er nad oedd modd i'r plant ddod at ei gilydd i ben blaen y capel oherwydd bod yna rai cyfyngiadau'n parhau, mynnodd Beti-Wyn air gyda nhw yn wasgaredig gyda'u teuluoedd. Mentrodd holi a oedd rhai ohonynt wedi bod ar goll... ac fe gafwyd sawl cyfaddefiad - un wedi bod ar goll yn yr Eisteddfod, un arall yn Tesco, un arall ar gae rygbi ac un arall yn Bluestone a chafwyd cyfaddefiad personol gan Beti-Wyn hefyd cyn iddi ein tywys yn ôl at stori'r wraig a'r darn arian coll. Y wers oedd bod y darn coll llawn mor werthfawr i'r wraig â'r naw oedd ganddi ac yr un modd bod pob un ohonom ni yr un mor bwysig i Iesu a bod angen dod o hyd i'r rhai coll. Yna, daeth Beti-Wyn ar draws bag yn llawn o arian siocled i'w rhannu gyda'r plant ar y diwedd i'w helpu i gofio'r neges bwysig hon.



Cyoeddwyd yr emyn nesaf '*Iesu Geidwad Bendigedig*' gan ein gweinidog a gweinyddwyd y Cymun cyn cloi gyda'r emyn olaf '*Y mae i'm Waredwr*'.

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

Papur Priordy'n cofio... Bardd a Pherson arbennig

T GWYNN JONES


Ganed un o feirdd mwyaf Cymru yn y mesurau caeth 150 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn ar 10 Hydref 1871 yn y Gwyndy Uchaf, fferm a hefyd dafarndy, ym Metws-yn-Rhos, yn yr hen Sir Ddinbych.

Ychydig o addysg ffurfiol a gafodd ac aeth i fyd newyddiaduriaeth yn gynnar iawn. Bu'n gweithio gyda sawl papur, gan gynnwys *Baner ac Amserau Cymru* a'r *Herald Gymraeg*. Yna, bu'n gweithio fel catalogydd yn Llyfrgell

Genedlaethol Cymru yn 1909 cyn cael ei benodi'n ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ym 1913 a dod i Gadair Gregynog mewn Llenyddiaeth Gymraeg ym 1919 hyd nes iddo ymddeol ym 1937. Am gamp ryfeddol - yn dringo'n uchel yn y byd academiaidd ac yntau, fel y dywed Derec Llwyd Morgan, heb gael *'hanner awr o hyfforddiant colegol'*.

Gwnaeth T Gwynn Jones gyfraniad pwysig i lenyddiaeth Cymru, ysgolheictod Cymreig ac astudiaethau llên Gwerin.

Roedd yn adnabyddus iawn fel bardd a chyfansoddodd doreth o gerddi, caeth a rhydd. Mae rhai o'i gerddi ymhlith campweithiau'r Gymraeg. Ym 1902 - y flwyddyn y dechreuodd ychwanegu Gwynn at ei enw bedydd - yr enillodd Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mangor am ei awdl *'Ymadawiad Arthur'*. Mae'r awdl hon yn drobwynt yn hanes llenyddiaeth Gymraeg. Mae'n awdl wahanol iawn i awdlau hirwyntog ac anfarddonol y ganrif o'r blaen gan ei bod yn adrodd stori yn hytrach na chynnwys popeth ar destun mewn un cyfansoddiad hir, heb fawr o gyswllt rhwng y gwahanol ddarnau, gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion mawreddog a chymhleth. Hon oedd y gyntaf o gyfres o gerddi mawr a luniodd T Gwynn Jones ar y gynghanedd, naill ai ar y mesurau traddodiadol neu ar fesurau newydd wedi'u seilio ar yr hen



rai. Enillodd y Gadair eto yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain ym 1909, gyda *Gwlad y Bryniau*. Ymhlith ei gyfrolau o gerddi mae *Caniadau* (1934). Cafwyd argraffiad newydd o'r gyfrol hon ym 1992 gyda rhagymadrodd gan Derec Llwyd Morgan.

Ysgrifennodd ddramâu a nofelau. Roedd yn feirniad llenyddol a chyhoeddodd weithiau beirniadol ac ysgolheigaidd o bwys. Roedd hefyd yn gyfieithydd dawnus a throsodd weithiau o'r Almaeneg, Groeg, Gwyddeleg a Saesneg i'r Gymraeg. Lluniodd gofiannau i Thomas Gee ac Emrys ap Iwan – dau a gafodd ddylanwad mawr arno. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o waith y bardd Tudur Aled, un a fu farw yng Nghaerfyrddin a'i gladdu yng Nghwrt y Brodyr. Ar ben hynny, ysgrifennodd filoedd o golofnau newyddiadurol dros y blynyddoedd ac roedd yn un o'r llythyrrwyr mwyaf a fu yng Nghymru.

Roedd T Gwynn Jones yn heddychwr mawr ac yn wrthwynebydd cryf i'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r Dr Gwynfor Evans yn adrodd hanesyn amdano yn y gyfrol *Heddychiaeth Gristnogol yng Nghymru* (*Cymdeithas y Cymod* 1991) yn gadael y cwrdd yn gynnar un Sul yn y Tabernacl, Aberystwyth oherwydd ei ddaliadau dros heddwch. Meddai: '*Un nos Sul offrymodd gweinidog y Tabernacl weddi a oedd, yn ôl T. Gwynn Jones, yn ddim gwell nag apêl barbariad i dduw ei lwyth am fuddugoliaeth i'w luoedd rhyfel. Pan godai'r gynulleidfa i ganu'r emyn nesaf cerddodd T. Gwynn Jones a'i deulu allan o'r cwrdd.*'

Mae pump o emynau ganddo yn *Caneuon Ffydd*, pob un ohonynt yn gyfieithiadau ar wahân i un, sef *Pan fo'n blynyddoedd ni'n byrhau* (Rhif 173). Mae'r emyn hwn ymhlith yr hanner cant o'r goreuon yn y gyfrol *Emynau Cymru* (Y Lolfa 2001) a olygwyd gan Gwynn ac Ifor ap Gwilym. Mae gan T Gwynn Jones hefyd gyfieithiadau nodedig o emynau yn y gyfrol *Llyfr Emynau Catholig Cymraeg*.



Roedd T Gwynn Jones yn cydweithio llawer â W S Gwynn Williams (1896-1978), cerddor blaenllaw a sefydlydd Gwmni Cyhoeddi Gwynn.



Bu'n ffigwr amlwg iawn yn Eisteddfod Ryngwladol gyntaf Llangollen o'r dechrau'n deg ym 1947. Ei gyfaill T Gwynn Jones a gyfansoddodd yr arwyddair ar gyfer yr eisteddfod, sef ***Byd gwyn fydd byd a gano. Gwaraidd fydd ei gerddi fo.***

Cyfansoddodd T Gwynn Jones a W S Gwynn Williams *Gantata* ar y cyd yn dwyn y teitl *Dewi Sant*, y geiriau gan y naill a'r gerddoriaeth gan y llall. Cyflwynwyd y gwaith am y tro cyntaf pan ddarllledwyd gan y BBC ar 3 Mawrth 1942.

Bu farw T Gwynn Jones yn Aberystwyth ar 7 Mawrth 1949 a'i gladdu yn y fynwent oddi ar Heol Llanbadarn. Wrth grisialu cyfraniad y gŵr amlochrog hwn, dywed ei gofiannydd David Jenkins: *'Y mae cyfanswm ei gyhoeddiadau yn rhyfeddol ond y gwaddol cyfoethocaf yw ei farddoniaeth.'*

Dyfynnwn ei emyn 'gosber', adnabyddus (Rhif 173 yn Caenuon Ffydd) i orffen. Roedd T Gwynn Jones yn byw yn Bow Street ar y pryd ac yn aelod yng Nghapel y Garn ac yn ôl *Cydymaith i Caneuon Ffydd* rhywbeth a ddywedodd y Gweinidog a chyn-fyfyriwr iddo) am y goleuni yn yr hwyr a'i cymhellodd i ysgrifennu'r emyn:

Pan fo'n blynyddoedd ni'n byrhau, pan fo'r cysgodion draw'n dyfnhau, tydi, yr unig un a wŷr, rho olau'r haul ym mrig yr hwyr.	
	Er gwaeled fu a wnaethom ni ar hyd ein hoës a'i helynt hi, er crwydro ffôl ar lwybrau gŵyr, rho di drugaredd gyda'r hwyr.
Na chofia'n mawr wendidau mwy, a maint eu holl ffolineb hwy; tydi, yr unig un a'i gŵyr, rho di drugaredd gyda'r hwyr.	
	Mae sŵn y byd yn cilio draw, a dadwrdd ynfyd dyn a daw; a fydd ein rhan, tydi a'i gŵyr, rho di oleuni gyda'r hwyr.

CINIO DYDD SUL YR OFALAETH

Dydd Sul 17 Hydref 2021

Gwesty'r Llwyn Iorwg

12.30 ar gyfer 1 o'r gloch

Pris: £18 am dri chwr

Enwau ar y daflen yng nghyntedd y capel cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda



DALIER SYLW

Mae Bore Coffi Llyfrau Llafar Cymru a oedd i'w gynnal ar Ddydd Mercher 20 Hydref 2021 yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg wedi'i ohirio am y tro.



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 10 Tachwedd 2021 am 7
Yn y Capel

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda



Dydd Gweddi'r Byd

Cynhelir cyfarfod ar ddydd Mercher, 24 Tachwedd 2021 o 10 tan 12 dros Zoom i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2022. Mwy o fanylion i ddod

DIOLCH YN FAWR

Mae'n dda dweud y codwyd £240 yn y casgliad rhydd ar Fore Sul, 5 Medi 2021 at Gronfa Haiti, Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.



Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio
yn cyflwyno...



NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

Mis Awst

Parhawyd gyda threfniadau arferol
mis Awst eleni er gwaethaf yr
amgylchiadau .

Apêl Haiti

Buom yn casglu at yr Apêl hon

APÊL HAITI

Faint ohonom sy'n cofio Apel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2013-2014?
Casglwyd £200,000.
Unwaith eto mae'n argyfwng yn y wlad oherwydd daeagryn arall.
Ymatebwn i Apel Cymorth Cristnogol
Os dymunwch gyfrannu, danfonwch sic yn daladwy i: Ysgol Sul Salem
Yn danfon i Mr Alun Roberts: Melangell, Lân Ysgubor Wen
neu gellir talu yn uniongyrchol i gyfrif yr Ysgol Sul:
Côd y cyfrif: 40 16 02
Rhif y cyfrif: 41069446
COFIWCH BŴ FICH ENW FEL CYFEIRNOD

YSGOL SUL SALEM



Mae'r Ysgol Sul wedi
ailgychwyn cyfarfod gan
barhau'r tu allan am y tro yng Nghaer Segontium.

Cyd-Addoli Awst
Manylion cysylltu zoom

Awst 1 a 8
Salem a zoom

RHIF Y CYFARFOD
899 6740 5728

COD YMUNO
1588

Awst 15 10:30
Oedfa zoom yn unig

RHIF Y CYFARFOD
898 2299 8184

COD YMUNO
063803

Awst 22 Seilo a zoom
Awst 29 zoom yn unig

RHIF Y CYFARFOD
832 3636 8248

COD YMUNO
464418



CYNGOR EGLWYSI CAERNARFON

OEDFA
"DRIVE IN"
DYDD SUL 19 MEDI

CRŶO I CHI DDOD
AR DDOD
CYDA
CARWY CAMPU!

MAES PARCIO CYHOEDDUS DAN MORRISONS
PARCIO O 1.40YH YMLAEN
OEDFA YN DECHRAU'N BRYDLON AM 2YH

OEDFA UNDEBOL MIS MEDI DAN NAWDD CYNGOR EGLWYSI CAERNARFON

Cynhaliwyd mewn maes parcio
cyhoeddus y tro hwn

BORE COFFI MACMILLAN



Ifanc@Priordy

Chwilair – Genesis 1



www.WordSearchMaker.com

adar

Adda

anifeiliaid

chwech diwrnod

coed

da iawn

Duw

Efa

ffrwythau

goleuni

gorffwys

haul

lleuad

llysiau

môr

planhigion

pysgod

sêr

tir sych

ymlusgiaid

Newyddion da!



Cofiwch fod yr Ysgol Sul wedi ailgychwyn!
Mae pawb yn ddiogel yn y festri.

Diolchgarwch

Bydd ein gwasanaeth
Diolchgarwch fore Sul cyntaf
Hydref ac fe fyddwn yn cyflwyno
rhoddion i'r Banc Bwyd: Pasta,
Bisgedi, Tuniau, Te, Coffi, Grawnfwyd.....



Ffilm yr Ysgol Sul



Bydd ffilmiau byrion o waith yr
Ysgol Sul yn ymddangos ar sianel
YouTube yr Ofalaeth o bryd i'w
gilydd. Edrychwch allan amdanynt!



Adnod i'w chofio....

'Peidiwch poeni am
fory, cewch groesi'r
bont honno pan ddaw.
Mae'n well wynebu
problemau un dydd ar y
tro.'
Mathew 6:34

*Cofiwch ein dilyn
ar Facebook a
Twitter, a'n
gwefan
www.priordy.org*

*Hwyl am y tro,
Beti-Wyn*

BORE COFFI MACMILLAN



Rheswm Llinos Jones dros ddewis Para i Nofio, sef dyfyniad o'r ffilm *Finding Nemo*...

Bues yn pendroni pa ddyfyniad i'w ddewis. Mae miloedd ar filoedd o ddyfyniadau ysbrydoledig i'w cael a channoedd ohonynt o'r Beibl, cannoedd eraill o emynau, awdlau ac ymrysonau lu ar hyd y blynyddoedd. Felly maddeuwch i mi - rydym oll yn Gristnogion a gobeithiaf felly y byddwch - am ddewis dyfyniad o ffilm sydd wedi ei dargedu at blant sef "*Finding Nemo*".



Mae Dory y pysgodyn glas yn gymeriad hoffus ac annwyl iawn yn y ffilm *Finding Nemo* a'r ffilm ganlynol *Finding Dory*. Mae "*Just Keep swimming*" wedi dod yn arwyddair i Dory ac yn un o'r brawddegau a gysylltir fwyaf â'r ffilmiau, ond nid dyma pam y dewisais e ychwaith.

I nifer, eu hoff gymeriad cartŵn yw Mickey Mouse neu Cinderella. Yn wir, Mulan yw hoff gymeriad fy merch a Shrek oedd hoff gymeriad fy mab am flynyddoedd maith, ond yn bendant Dory yw fy un i oherwydd y frawddeg mae'n ei hailadrodd drosodd a throsodd yn y ffilm sef "*Just Keep Swimming*".

Testun sbort yw Dory a chymeriad nad yw pobl na chymeriadau'r ffilm yn ei gymryd o ddifrif yn aml iawn. I mi, serch hynny, Dory yw arwr y ffilm am ei bod hi wedi parhau i fynd.

Mae Dory yn nodweddiadol am fod yn anghofus yn y ffilm, yn drysu ac yn gwneud pethau gwirion yn aml iawn. Serch hyn, mae'n cynorthwyo pobl, yn wir mae'n rhoi heibio'r hyn sydd yn bwysig iddi hi yn y ffilm i helpu eraill, Mae'n helpu Marlon i

ganfod ei fab Nemo. Mae Dory yn ymdrechgar hefyd wrth iddi ddysgu i ddarllen yn y ffilm ac yn ddewr wrth iddi wynebu heriau di-rif fel pysgod bygythiol iawn, a thrwy hyn oll mae hi'n "just keep swimming" – yn dal i fynd.

Mae Dory'n meithrin perthynas â Siarcod sydd yn ceisio gwella eu hunain o fewn y ffilm. Hyd yn oed yn y sefyllfa ofnus iawn hon (ac rydw i fy hun yn enwog am ofni siarcod!) mae'n parhau i fynd wrth roi'r ail gyfle i'r siarcod. Er i un droi arni mae'n dal i fynd ac yn gweld y gorau ynddo trwy "just keep swimming".

Mewn sefyllfaoedd heriol, anodd, peryglus, emosiynol, corfforol beryglus mae Dory yn "Just keep swimming" ac yn esiampl i nifer o fewn y ddwy ffilm o sut i fyw eu bywydau mewn cyfnodau anodd iawn.

Dros y ddwy flynedd diwethaf mae cyfnodau tebyg wedi dod ar ein traws ni yn y byd, ac rydym ni wedi "Just keep swimming". Mewn ffyrdd gwahanol a chyfnodau gwahanol mae pawb wedi dod ar draws amseroedd ofnadwy ond rydym oll wedi parhau i fynd ac rydym oll wedi tynnu ar ychydig o Dory sydd ynom ac wedi "Just Keep Swimming"



Mae'r ffaith ein bod ni'n dal i fynd heddiw yn dyst i hyn. Un arall a ddilynodd arwyddair Dory yw **Yusra Mardini**. Ffoadur oedd hi ac ar adeg heriol yn ei bywyd roedd hi'n ffoi gydag eraill mewn cwch pan aeth hwnnw i drafferthion. Aeth hi a thri arall i mewn i'r dŵr a helpu i ddwyn y cwch a'r rhai eraill oedd arni i ddiogelwch. Parhaodd

Yusra Mardini i hyfforddi fel nofwraig wedi iddi gyrraedd diogelwch yr Almaen a chystadlu yn y Gemau Olympaidd yn enw'r grŵp athletwyr oedd yn ffoaduriaid - "Just Keep Swimming".

Nid syniad newydd yw arwyddair Dory, yn wir mae "Bydd yn wrol, paid â llithro, er mor dywyll yw y daith" yn rhannu'r un neges, fel nifer o rai eraill y gallwn eu henwi. Ond fel y dywedais, gobeithio y gallwch faddau i mi am ddewis dyfyniad o gartŵn oherwydd ar gyfnodau anodd mae ysgafnwydd cartŵn yn llesol i bawb weithiau.



O.N. Mae'r DVD yn ein tŷ ni os oes n awydd ar unrhyw un ohonoch i weld y ffilm! 😊

	DILYN WALDO Eirwyn George £7 – Medi 2021 Cyfrol i ddathlu degawd cyntaf Cymdeithas Waldo a sefydlwyd ym mis Medi 2010. Canolbwyntir yn bennaf ar weithgareddau'r Gymdeithas a chynhwysir 24 o luniau
--	--

Hedydd Davies Athletics, Education and Carmarthen Harriers Pris £10 (yn cynnwys tâl post) drwy Hedydd Davies ☎ 01545 238563 neu hedydd.davies@tinyworld.co.uk	
--	--

Tim Hayes....

Rhaglen Lorraine ITV

I'R rheini ohonoch sy'n medru mwynhau boreau ychydig mwy hamddenol, falle ail ddishgled o goffi



a fflicio trwy'r sianeli teledu o 9am ymlaen, mae'n bosib eich bod chi wedi clywed ambell i lais cyfarwydd yn ddiweddar. Yn wir, roedd tipyn o fwrlwm y tu allan i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar



ddechrau'r tymor achos daeth criw rhaglen Lorraine Kelly o ITV i ffilmio'n fyw ar fore Llun, Medi'r 6ed.

Y rheswm dros yr ymweliad plygeiniol oedd lawnsio a chodi



ymwybyddiaeth o ymgyrch "*Headucation*" ar draws ysgolion Prydain. Parciwyd bws ysgol felen Americanaidd o flaen yr ysgol yn gefndir i'r ffilmio ac i godi proffil yr ymgyrch. Arweinydd "*Headucation*" yw Llysgenad Iechyd Meddwl Ieuentid

Llywodraeth San Steffan; y meddyg Dr Alex George. Mae'n bosib (!) y bydd rhai ohonoch yn adnabod Dr Alex ers ei ymddangosiad ar "*Love Island*" rai blynyddoedd nôl ond bellach mae'n gweithio'n ddiwyd i godi ymwybyddiaeth am les a meddwl iach ynghyd â'i waith rhan amser fel meddyg yn un o ysbytai Llundain. Roedd Dr Alex yn awyddus i ddechrau'r ymgyrch "*Headucation*" yn Ysgol Bro Myrddin oherwydd roedd ei frawd, Llyr, yn gyn-ddisgybl. Bu farw Llyr



ychydig dros flwyddyn ar ôl gadael yr ysgol o ganlyniad i hunan-laddiad. Gobaith Dr Alex yw cael pobl ifanc i ddechrau trafod lles eu hunain ac i gadw llygaid ar eu cyfoedion a'u ffrindiau. Ymwelodd Dr Alex â disgyblion Y Chweched cyn yr haf hefyd drwy gynnal sesiwn cwestiwn ac ateb dros Zoom. Fel diolch iddo am ei waith, cyflwynwyd sic o £250 i elusen mae'n ei chefnogi - *Young Minds*.

Pleser i mi oedd cael rhannu gyda Dr Alex, a gweddill y DU, weledigaeth Llywodraeth Cymru am hybu lles drwy'r Cwricwlwm Newydd. Mae lechyd Meddwl a Lles wedi'i enwi fel un o'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad y bydd disgyblion yn eu hastudio trwy gydol eu taith Ysgol, gan fynnu'r un sylw â Llythrennedd, Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, y Dyniaethau, a'r Celfyddydau Mynegiannol.

Bu aelodau'r Chweched Dosbarth, ac yn eu mysg Carina Sidhu o PIP, yn siarad am eu profiadau hwythau a'r heriau ychwanegol roedd Covid a'r ansicrwydd am arholiadau wedi'i achosi dros y 18mis diwethaf.

Er bod Dr Alex yn dipyn o Seren ar



wahanol gyfryngau erbyn hyn, roedd yn ddyn ifanc diymhongar iawn ac yn fodlon tynnu hunlun (selfie) gyda sawl carfan o ddisgyblion egseited iawn - gan gynnwys Elain, Gwenan a Carina, aelodau PIP!

DYMUWN yn dda iddo gyda'r ymgyrch. Mae modd gweld y rhaglen a ddarlledwyd ar Fedi'r 6ed ar blatfform ITVHub.

GWAITH ADFER RHANNAU O ADEILAD Y CAPEL YN MYND RHAGDDO



Mae gwaith tynnu'r cafau dŵr,
eu glanhau a'u paentio a gosod
darnau newydd lle bo angen wedi
dechrau.

Diolch i Huw Jones, Cadeirydd,
ac Aelodau Is-bwyllgor yr
Adeiladau am oruchwylio'r gwaith





H



Pa mor dda ydych chi'n'nabod eich emynau? Mae'n Fis Hydref ac mae pob gair sy'n eisiau yn yr her isod yn dechrau gyda H.
Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!

1	Wyddoch chwi pwy wnaeth yr ____?	H
2	Pe bawn i yn iâr fach yr ____	H
3	_____ derfynau dy deyrnas	H
4	_____ fyth! Mae gennyf Frawd	H
5	O goelio'r ____ fugeiliaid	H
6	Roedd yn y wlad ____ fugeiliaid yn gwyllo	H
7	'N ôl marw Brenin ____	H
8	O Arglwydd Dduw pob ____ ddawn	H
9	Tydi sydd ____ fel erioed	H
10	Dragwyddol, _____ lôr	H

Atebion ar Dudalen 39

COFIO SYLFAENYDD O BWYS

ELENI rydyn ni'n dathlu deucanmlwyddiant sylfaenydd un o fudiadau ieuenctid hynaf a mwyaf y byd.

Ganed **George Williams** ar 11 Hydref 1821. Cafodd ei eni ar fferm yn Dulverton, Gwlad yr Haf. Gadawodd yr ysgol yn 13 oed i weithio ar y fferm. Fe'i magwyd yn Eglwyswr ond fel gŵr ifanc disgrifiai hunan fel person '*di-hid, difeddwl a di-Dduw a rhegwr brwd*'.



Yn dilyn damwain cafodd ei anfon i weithio mewn siop dilledydd yn Bridgewater. Yn 1837, cafodd droedigaeth a dod yn aelod gweithgar yn Eglwys Annibynnol Zion yn y dref honno Yn 1841, symudodd i Lundain a chael gwaith fel dilledydd cynorthwyol i'r meistri Hitchcock a Rogers. Fe'i dyrchafwyd yn fuan. Priododd â Helen Jane Maunder Hitchcock, merch un o'r penaethiaid, a dod yn bennaeth y cwmni pan fu farw yntau.

Daeth yn aelod o Eglwys Annibynnol Weigh House yn Llundan a threulio'i amser hamdden yn efengylu. Fe'i brawychwyd gan amodau gwaith dynion ifainc yn Llundain a chasglodd ynghyd grŵp o'i gyd-ddilledwyr i greu mudiad yn cynnwys man ble na fyddent yn cael eu temptio i bechu, sef *The Young Men's Christian Association* a sefydlwyd ar 6 Mehefin 1844. Erbyn hynny roedd wedi dychwelyd at yr Anglicaniaid. Un o'r dychweledigion cynharaf i'r gymdeithas newydd hon oedd ei gyflogwr, George Hitchcock. Buan y lledodd y mudiad a sefydlwyd canghennau eraill mewn amser.



Cafodd Williams ei urddo'n farchog gan y frenhines am ei waith gyda'r YMCA. Bu farw 6 Tachwedd 1905 a'i gladdu yn Eglwys Gadeiriol St Paul.



Mae ffenestr liw wedi'i gosod yn Abaty Westminster er cof amdano.



Mae'r YMCA bellach yn gweithredu mewn 120 o wledydd ac yn cyrraedd mwy na 64 miliwn o bobl, gan weithio'n bennaf ymysg pobl ifanc - o blentyndod i oedolaeth ifanc – gan roi cymorth iddynt gyrraedd eu potensial a mwynhau dyfodol gwell.

Mae'r YMCA yn weithgar yng Nghymru – ond yn y de yn unig ble mae 11 o ganghennau. Mae pob cangen yn cynnal gwahanol weithgareddau ond bod y cyfan mewn rhyw fodd neu'i gilydd yn ymwneud â gwaith ieuenctid, gwaith teulu, iechyd a lles a hyfforddi / addysgu.

Mae hosteli yng Nghymru gan y YMCA - yng Nghaerdydd a Port Talbot. Mae'r canghennau hyn hefyd yn gwneud cyfraniad at ddatblygu tai i sicrhau fod pobl ddigartref yn cael gwell amodau byw.



Mae gan y mudiad yng Nghymru siopau elusen yn ogystal, yn cynnwys, un yma **yng Nghaerfyrddin**.

Mae Coleg Cymunedol YMCA Cymru wedi cyflawni gwaith nodedig dros y blynyddoedd yn enwedig ym maes dysgu

troseddwy, hyfforddiant gwaith ieuenctid a dysgu datblygiad cymunedol. Mae'r Coleg wedi ymuno â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr er 2015 i ffurfio Addysg Oedolion Cymru sy'n parhau i gyflawni gwaith da.

EIN dymuniadau da i'r YMCA i'r dyfodol. Er mai cymharol fach yw'r mudiad yng Nghymru, mae'n fudiad hynod o ddiddorol ac yn darparu gwasanaethau pwysig i'r cymunedau lleol ble mae'n bodoli a hynny mewn cyfnod heriol pan mae'r esgid fach yn gallu gwasgu mor dynn yn gyllidol ar fudiadau fel hyn.



Diolch i Catrin Anthony-Evans, Swyddog Cyfathrebu YMCA Cymru, am bob help gyda'r erthygl hon

Capeli'r Priordy ac Emaus yn Cydaddoli

Trefnwyd i'r Priordy a Chapel Emaus, Bangor, gydaddoli ar Fore Sul, 19 Medi 2021 drwy gyfrwng Zoom.



Roedd hi'n braf cael bod yng nghwmni'n gilydd yn y modd hwn.


Roedd yr oedfa yng ngofal ein Gweinidog a thraddodwyd y fendith ar y diwedd gan y Parchedig Casi Jones, Gweinidog Emaus.



Cynhaliwyd yr Ysgol Sul yn ôl ein harfer.



CYFROL BWYSIG AR GYFER Y TO SY'N CODI!



HANES YN Y TIR
Edrych ar Hanes Cymru
Elin Jones

Medi 2021

Gwasg Carreg Gwalch - £16.50

Addas i Oed 9-11+
neu
Gyfnod Allweddol 2/3

Yn y gyfrol hon mae Elin Jones yn dangos bod olion gorffennol Cymru o'n cwmpas heddiw. Mae'n mynd â ni ar daith weledol drwy dros 5,000 o flynyddoedd o hanes ac o gwmpas Cymru gyfan, Ar gael yn Saesneg: *History Grounded*.



EDMWND PRYS (1543/4-1623)

Mae'n siŵr bod amryw ohonom wedi mwynhau darllen erthygl D Cyril Jones am Edmwnd Prys yn ein rhifyn diwethaf i ddathlu cyhoeddi'l waith pwysig, *Salmau Cân*, bedwar can mlynedd yn ôl ym 1621.

Da deall bod galw am ddarllen yr erthygl ymysg cyfeillion yn Eglwys Maentwrog a bod copïau ar y ffordd iddynt!

Hoffai Cyril dynnu sylw at ddau gywiriad bach yn ei erthygl. O Lanrwst ac nid o Langernyw yr hannai mam Edmwnd Prys a Rhys Parry yn hytrach na Rhys Evans yw 'Eos Eyas'.

Mân ddiwygiadau'n unig yw'r rhain nad ydynt yn tarfu o gwbl ar ein mwynhad o waith Cyril. Diolch mawr iddo.




A WYDDECH CHI?



Dyw'r £240 miliwn a mwy a fuddsoddwyd gan Eglwys Loegr i atal y dirywiad mewn addolwyr ddim wedi llwyddo i droi pethau o gwmpas hyd yma, yn ôl Archegob Caergaint. Mae'r ffigyrau a gyflwywyd i'r Synod Cyffredinol eleni'n dangos fod £248 miliwn wedi'i ddosbarthu rhwng 2017-2020 fel rhan o raglen adnewyddu a diwygio'r eglwys i ddenu addolwyr newydd, i gefnogi eglwysi mewn ardaloedd difreintiedig ac i sefydlu cynulleidfaoedd newydd.

OEDFA YNG NGOFAL YR AELODAU

Ar Fore Sul 25 Medi 2021 cynhaliwyd yr oedfa gan yr aelodau. 'Y Dilledyn Gorau – Gostyngeiddrwydd' oedd y thema. Yr arweinydd oedd Adrian Evans. Cafwyd stori gyffroes a diddorol i'r plant gan Rebecca Hayes cyn iddynt fynd i'r Ysgol Sul. Darllenwyd darnau o'r Beibl gan Catrin Heledd Jones a Gareth Gravell. Ceisiodd Alun Charles yn y myfyrdod ddangos fel mae'r Beibl yn dweud wrthym am beidio â phoeni am bethau materol fel dillad ac mai gwisgo gostyngeiddrwydd yn ein calon yw'r nod a bod Iesu'n enghraifft glodwiw o sut y gallwn dyfu'n ostyngedig. Cyflwynodd hefyd y weddi. Roedd Eira Phillips wrth yr organ a gofalodd Elis Jones am agweddau technolegol yr oedfa.



DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS

YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Y DDIWEDDAR SIÂN AXFORD

Daeth ton o dristwch dros yr fro gyfan o glywed am golli Siân. Bu farw ar 24 Medi 2021 yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli, wedi salwch byr a wynebodd yn ddewr.

O golli Siân collwyd merch serchus, cyfeillgar, cymwynasgar a charedig. Bu'n athrawes gydwytbodol, uchel iawn ei pharch, yn Ysgol y Dderwen ers 20 mlynedd ac yn ffrind da i'w chydweithwyr a'r cenedlaethau o blant a fu yn ei dosbarth. Roedd yn caru'i gwaith ac yn athrawes heb ei hail.



Roedd yn gerddor dawnus ac wrth ei bodd yn canu gyda Chôr Seingar. I ni yma yn y Priordy, roedd Siân yn aelod annwyl a phawb yn ffrind iddi. Roedd bob amser yn barod i gyfrannu at waith yr Ysgol Sul pa ddoi'r galw, ac i oedfa Nadolig y plant yn ogystal â chymryd rhan yn gyhoeddus. Fe gofiwn yn dda am yr oedfa y bu i'r teulu ei harwain ar Sul cyntaf y flwyddyn newydd rai blynyddoedd yn ôl.

Mae hiraeth mawr ar ôl Siân, a phawb yn dal i fod mewn anghrediniaeth ein bod wedi'i cholli mor sydyn. Ond gwyddom fod yr hiraeth mwyaf ar yr aelwyd, Cwm Hyfryd. Meddyliwn am Richard, ei phriod, a fu mor ofalus ohoni dros gyfnod ei salwch, y bechgyn, Carwyn a Tomos, kannwyll ei llygad, Carol a Nantlais, ei rheini, Rhian, ei chwaer, a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Roedd y dorf enfawr a ddaeth ynghyd i'r Priordy fore Sadwrn, 4 Medi 2021 yn arwydd sicr o'r parch a fu i Siân ac sydd i'w theulu. Yn dilyn yr oedfa yn Y Priordy ymlwybrodd y teulu yn ara bach i Amlosgfa Llanelli ar gyfer oedfa breifat. Rhoddwyd llwch Siân i orffwys ym mynwent y dref ymhen rhai diwrnodau.

Carwn ddiolch i ddiaconiaid y Priordy am bob cymorth gyda threfniadau'r dydd.

Meddyliwn am y teulu a gweddiwn y bydd Duw yn gymorth ac yn nerth iddynt. Diolch am Siân annwyl, ac am y fraint o'i hadnabod.

Ein Gweinidog

Y DDIWEDDAR MARGARET JONES

Trist cofnodi marwolaeth un o'n haelodau anwylaf, Margaret Jones, gynt o Heol San Pedr ond a fu'n preswyllo yng Nghartref Dol y Felin, Sanclêr, lle derbyniodd ofal ardderchog, dros y tair blynedd diwethaf. Bu farw'n dawel ar 20 Medi 2021.



Cofiwn am Margaret fel gwraig siriol a chyfeillgar a oedd bob amser yn barod ei chymwynas. Roedd yn perthyn i griw o ffrindiau agos ac wrth ei bodd yn eu cwmni dros baned yn y dref ac ar aelwydydd ei gilydd.

Roedd yn fawr ei chymwynas hefyd yn cludo'i chyfeillion yn ei Audi ffyddlon a chafwyd llawer o hwyl yn ei chwmni!

Bu'n aelod ffyddlon o Ferched y Wawr a'r Clwb Diffyg Clyw, heb sôn am ei ffyddlondeb a'i theyrngarwch i Gymdeithas yr Eglwys yn Y Priordy. Byddai cael cwmni Margaret ar y Sul yn llonni'n canlonnau i gyd. Roedd yn uchel iawn ei pharch gan bawb a adnabu.

Daeth cynulleidfa dda ynghyd i Amlosgfa Llanelli, ddydd Iau, 9 Medi 2021 i'r oedfa i ddiolch am ei bywyd.

Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog gyda chymorth cyfaill i'r teulu, Y Parchedig Mary Thorley.

Margaret oedd brenhines ei theulu a chafodd yn ei diweddardd briod Reg, y meibion Andrew a Martin, ei chwaer a'i hwyron a'i hwyresau deulu cariadus a chefnogol.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Diolchwn amdani ac am y fraint o'i hadnabod.

Ein Gweinidog



DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Hydref		Tachwedd	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Sulwyn Thomas	Philip Jones	Jayne Woods	Huw Jones



DARLLENWYR



Hydref	3	Adrian Evans (Hwyr)	Tachwedd	7	Cwrdd Plant
	10	Elis Jones		14	Wyn Tegryn Evans
	17	Lleucu Edwards		21	Glenys Thomas
	24	Sulwyn Thomas		28	Alwen Owen
	31	PIP			



CYHOEDDWYR



Hydref	Catrin Heledd Jones	Tachwedd	Elis Jones
--------	---------------------	----------	------------



Drama am Ani - cyfreithwraig lwyddiannus sy'n penderfynu defnyddio *sperm bank* er mwyn cael babi.

Ar gyfer un actor yn unig, caiff ei chyflwyno gan Bethan Ellis Owen, sy'n adnabyddus fel y cymeriad Ffion yn Pobol y Cwm.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

yn cyflwyno
ANFAMOL
(Rhiannon Boyle)

Ffwrnes, Llanelli
14.10 2021 – 7.30

[theatrausirgar.co.uk /](http://theatrausirgar.co.uk/)
☎ 0345 2263510

Y ddrama gyntaf ers pandemig y Coronafeirws i deithio i theatrau dan do gan Theatr Genedlaethol Cymru.



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddylw'n yn arbennig am Bronwen Wilkins. Ein cofion annwyl atoch i gyflwr.

Bu Dr Huw Michael yn sôn am y farchnad ynni yng nghyswllt cynhyrchu trydan gyda Jennifer Jones ar **Dros Ginio** ar **Radio Cymru**. Mae pris nwy ar y farchnad wedi cynyddu o 50% dros y ddeufis diwethaf a'r Grid Cenedlaethol wedi penderfynu tanio pwerdy oedd yn defnyddio glo am fod y trydan ohono'n costio llai na thrydan o dyrbinau nwy. Bu Huw'n trafod arwyddocâd hyn a'r rhagolygon am ostwng y defnydd o ynni ffosil ar gyfer cynhyrchu trydan dros y blynyddoedd i ddod. Beth amser yn ôl, bu Huw hefyd ynghlwm wrth y seremoni i ddadorchuddio'r Groes Eneidiau (a sicrhawyd drwy elusen Thomas ac Elisabeth Mayhook) ym mynwent Eglwys Dewi Sant, Caerfyrddin. Fe'i gosodwyd i gofio'r nifer sylweddol o bobl sydd wedi'u claddu yno heb gofeb. Mae Huw'n un o ymddiriedolwyr yr elusen a bu'n gyfrifol am baratoi'r geiriau Cymraeg ar yr hysbysfwrdd ger y Groes. Traddododd hefyd yr anerchiad Cymraeg yn y seremoni.



Bu Dr Llinos Roberts ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** yn sôn am wythnos codi ymwybyddiaeth o'r meigryn ac agweddau cysylltiedig â'r cyflwr

Plentyndod oedd thema **Cofio** un bore Sul ar **Radio Cymru** pan fu John Hardy'n mynd nôl i ddyddiau plentyndod trwy archif, atgof a chân. Clywyd sgwrs â'r ddiweddar Jane Evans, mam Rhian ac Iris, am fagu plant a pheth am ddirieidi (cwbl ddiniwed, wrth gwrs!) y ddwy groten fach!

Cafwyd Bore Coffi MacMillan llwyddiannus yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd ym Maes Parcio'r Cwins, Abergwili – diolch i Alison Parsons a'i thîm, Llwyddwyd i godi £1000! Bu Alison ar **Radio Cymru** a **Radio Wales** yn sôn am y fenter a hefyd ar **Heno** ar **S4C** ynghyd â Beti-Wyn a'r Dr Angharad Wyn.

Mae'n gyfnod prysur i'n Gweinidog yn rhinwedd ei swydd yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Bu'n cymryd rhan (yn rhithiol) yng Ngwasanaeth Cenedlaethol Sul yr Hinsawdd o Gadeirlan Glasgow (5 Medi 2021). Fe gofiwn y bydd Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn cael ei chynnal yn Glasgow ddechrau mis Tachwedd. Bu hefyd mewn tri chyfarfod rhithiol arall gyda'r canlynol - Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chwrdd Chwarter Cyfundeb Meirionnydd. Yn ogystal, bu'n gofalu am

Wasanaeth Sul y Maer yn Heol Awst yn rhinwedd ei swydd fel Caplan y Cynghorydd Gareth John, ein Maer.

Llongyfarchiadau mawr i Huw a Carys Edwards ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf! Ganed Noa Llewelyn i Lowri a Meirion ar 21 Medi 2021 yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Ein dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Pob hwyl i Dennis Jones, Ysgrifennydd Cynllun Cyfamodi'r Priorddy, sydd newydd ddechrau'i dymor yn Gadeirydd Clwb Cinio Meibion Caerfyrddin. Rhwydd hynt iddo!

AC I GLOI, ein dymuniadau gorau i Irene Williams sy'n dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar 30 Hydref 2021 pan fydd yn 100 oed. Ein cofion cynnes ati oddi wrth bob un ohonom yn y Priorddy!



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n
Gweinidog neu Alun Charles**

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir ag Enid a Tudur Dylan Jones a'r teulu ar golli tad Enid a thaid Catrin a Siwan a hen daid Greta Fflur a Martha Nel, sef Robert Owen Williams, Y Bala ar 20 Medi 2021. Meddylwn am ei briod, Beti, a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth. Roedd R O Williams yn brifardd a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr ym 1996.

Daeth y newyddion hefyd am golli un o'n haelodau, sef Nigel Jenkins, yn dilyn cyfnod go hir o salwch. Cofiw'n am yr holl gysylltiadau ar yr adeg trist hwn. Bydd teyrnged iddo yn ein rhifyn nesaf.



ATEBION HER YR EMYNAU

Mae'r rhifau yn cyfeirio at Ganeuon Ffydd



1. Haul (129); 2. Haf (149); 3. Helaetha (264); 4. Hosanna (298);
5. Hen (442); 6 Honno (473); 7 Hedd (546); 8. Hyfryd (634);
9. Heddiw (679); 10, Hollalluog (809).

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Carys Morgans, Llinos Jones, Jayne Woods a Huw Jones am y lluniau'r mis hwn.





Y SULIADUR



Hydref	3	Bore	Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant gyda'n Gweinidog. Cynhelir y Sacrament o Fedydd. Derbynnir rhoddion i'r banc Bwyd.	C
		Hwyr	Cwrdd Pregethu a Chymundeb gyda'r Parchedig Ddr Adrian Morgan (Gorseinon) a'n Gweinidog. Paned a Phicau ar y Maen i bawb yn eu seddau	
	10	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	
	17	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth – Manlyuon y Tu Mewn	
	24	Bore	Oedfa gyda'r Parchedig Evan Morgan	
	31	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	

Tachwedd	7	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	C
	14	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	
	21	Bore	Oedfa gyda'r Parchedig Emyr Gwyn Evans	
	28	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

BORE SUL 3 HYDREF

Lansio Prosiect Newydd y Priorddy – Arloesi ar Lein

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priorddy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant								
Hydref					Tachwedd			
3	10	17	24	31	7	12	21	28
CP	✓	✓ PIP	-	✓	CP	✓	✓	✓

DALIER SYLW



Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd. Pwysleisiwn hefyd y byddwn yn deall yn iawn os na fydd rhai ohonoch yn teimlo'n ddigon hyderus i fentro i'r oedfaon ar hyn o bryd.

